



**Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd
Canolfan Ymwelwyr Prif Neuadd Trawsfynydd**

Dydd Iau 8 Mehefin 2023 am 14:00 o'r gloch

Agenda

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2023
3. Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2023
4. Anerchiad y Cadeirydd – Keith O'Brien
5. Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Safle – Angharad Rayner
6. Y Diweddaraaf am Brosiect Dymchwel a Gwaredu Cyfadeilad y Pyllau – Ian Warner / Nigel Wright
7. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – Tanya MacLeod
8. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru / Diweddariad ar Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd – Dave Wilby
9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Simon Napper
10. Diweddariad Magnox – Bill Hamilton
11. Diweddariad Cwmni Eginio – Elli Williams
12. Unrhyw fater arall
13. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf - 7 Rhagfyr 2023



**Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting
Trawsfynydd Main Hall Visitor Centre**

Thursday 8 June 2023 at 14:00pm

Agenda

1. Apologies for absence
2. Approve the minutes of the meeting held on 31 January 2023
3. Matters arising from the minutes of the meeting held on 31 January 2023
4. Chairman's Address – Keith O'Brien
5. Site Director's Report – Angharad Rayner
6. Ponds Complex Demolition and Disposals Project Update – Ian Warner / Nigel Wright
7. Report by the Office for Nuclear Regulation Update – Tanya MacLeod
8. Report by Natural Resources Wales / Environment Agency Report Update- Dave Wilby
9. Report by the Nuclear Decommissioning Authority – Simon Napper
10. Magnox update – Bill Hamilton
11. Cwmni Eginio Update – Eiliw Williams
12. AOB
13. Date and time of next meeting – 7 December 2023



**Crynodeb o'r prif bwyntiau o gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Trawsfynydd a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2023**

1. Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod
2. Cyflwynodd Angharad Rayner Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Magnox.
3. Rhoddodd Thomas Williams ddiweddariad byr ar Bont Droed Llyn Trawsfynydd.
4. Cyflwynodd Ian Dallas o'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear adroddiad
5. Rhoddodd Iwan Williams briff ar adroddiad ar y cyd Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd a ddosbarthwyd yn flaenorol.
6. Rhoddodd Simon Napper gyflwyniad ar ran yr NDA
7. Rhoddodd Bill Hamilton ddiweddariad ar ran Magnox Ltd
8. Rhoddodd Mr Ian Warner y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau Dymchwel a Gostwng Uchder Cyfadeilad y Pyllau ar safle Trawsfynydd.
9. Rhoddodd John Turp fanylion am Ddatgomisiynu Rhaglen Dreigl Trawsfynydd.
10. Croesawyd Laurence Smith i'w gyfarfod cyntaf o'r grŵp a rhoddodd ddiweddariad ar Gwmni Egino



**Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd
Dydd Mawrth 31 Ionawr 2023 am 13:00 o'r gloch
Canolfan Gynadledda**

COFNODION

YN BRESENNOL

ENW

Keith O'Brien,
Angharad Rayner
Mair Jones
Bill Hamilton
Claire Wing
Cath Pritchard
Ian Warner
Rory Trappe
Beryl Williams
Gerallt Rhun
Stephen Wilmott
Chris Harvey
Ben Bridgewater
Matt Meldrum
Steve Thomason
Andy McAteer
Mike Merritt
Jane Taylor- Williams
Lucy Powell
Jon Holland
Thomas Purfer
John Turp
Gwen Pethfor
Paul Richardson
Sam Morgan
Simon Napper
Laurence Smith
Sioned Lewis
Y Cyng Gwynfor Owen
Meryl Roberts
Y Cyng. Elfed Roberts
Y Cyng D.Meredydd
Williams
Steve Harris
Sion Roberts
Iwan Williams
David Wilby
Mike Baggs
Robin Williams
Tom Williams

Mynychwyd gan

Aled Jones
Sydna Roberts

SEFYDLIAD

Y Cadeirydd
Cyfarwyddwr y Safle
Arweinydd Economaidd-Gymdeithasol Magnox
Cyfarwyddwr Materion Allanol Magnox
Magnox – Arweinydd Cyfathrebu, safleoedd yng Nghymru
Magnox - Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Rheolwr y Cyflwr Terfynol, Magnox
Grŵp Ymddeoledigion Trawsfynydd
Grŵp Ymddeoledigion Trawsfynydd
Traws-newid
Prif Ymgynghorydd Gwastraff Magnox
Uwch Ymgynghorydd Peirianneg Magnox
Uwch Ymgynghorydd Gwastraff Magnox
Uwch Ymgynghorydd Gwastraff Magnox
Stiward Siop Unite Magnox
Peiriannydd Gorsaf (Mentwrog), Magnox
Magnox – Arweinydd Tîm Cynhyrchu Dydd, Maentwrog
POBL
POBL
Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru
Gwasanaeth NWEF
Rheolwr Rhaglen Peiriannau a Strwythurau, Magnox
W.I. Meirionydd
Cynrychiolydd Undeb Llafur, Magnox Trawsfynydd
Annibynnol
Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)
Cwmni Eginio
Cwmni Seren Ffestiniog
Cyngor Gwynedd
Cyngor Gwynedd a C.T. Phenrhyn
Cyngor Gwynedd
Cyngor Cymuned Maentwrog
Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Parc Cenedlaethol Eryri
Cyfoeth Naturiol Cymru
NRW (Natural Resources Wales)
Asiantaeth yr Amgylchedd
NW Minerals and Waste Planning Services
Magnox - Rheolwr Gwastraff, Trawsfynydd

Cymen - Cyfieithydd
Cymen – cofnodwr

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod am 1pm. Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol: -

Y Cyng. John Richards Cyngor Cymuned Talsarnau
Nigel Wright Magnox – Uwch Reolwr Prosiect

2. Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2022

Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 9 Mehefin 2022 eu cyflwyno a'u derbyn fel cofnod cywir - (GO/ER).

3. Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2022

Ni chodwyd unrhyw fater

4. Anerchiad y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau newydd ac eglurodd fod y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr 2022 wedi cael ei ohirio oherwydd nifer yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd a oedd yn golygu nad oedd cworwm yn y cyfarfod. Roedd yn dymuno atgoffa'r aelodau, fel y nodwyd yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol, mai *'rôl y Grŵp Rhanddeiliaid Safle yw bod yn gyfaill beirniadol i'r broses ddatgomiynu gan gydnabod ei bod yn bosibl y bydd datblygiadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud ar y cyd.'*

Unwaith eto, dymunai ddiolch i John Richards am ei gefnogaeth wrth fynychu amrywiol gyfarfodydd fel Is-gadeirydd yn ystod ei salwch diweddar. Diolchodd hefyd i Rory Trappe am fynychu Uwchgynhadledd yr NDA yng Nghaeredin ar 7-8 Medi 2022 gan nad oedd JR wedi gallu bod yn bresennol chwaith. Gwahoddodd y Cadeirydd Rory i ddweud gair neu ddau am y digwyddiad. Diolchodd RT i Simon Napper a'i gydweithwyr yn yr NDA am drefnu digwyddiad a oedd wedi'i drefnu'n berffaith mewn lleoliad da, gan roi cyfle gwych i rwydweithio. Yn ystod y digwyddiad, cynhaliwyd trafodaethau ynghylch gwagio tanwydd AGR a chafwyd cyflwyniadau gan Sellafield a Dounray.

5. Adroddiad gan Gyfarwyddwr Safle Trawsfynydd - Angharad Rayner

Croesawyd Angharad Rayner, Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd, i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad i'r aelodau ar ddatblygiadau'r Safle ers y cyfarfod diwethaf, a grynhoir fel a ganlyn:

Diogelwch

Diogelwch yw'r brif flaenoriaeth o hyd, gyda hyfforddiant gloywi gorfodol ar gyfer Perfformiad Dynol yn cael ei gynnal ar gyfer yr holl staff. Bu cyfres o anafiadau i'r dwylo, sy'n cael eu hystyried yn duedd ar draws Magnox, ac o ganlyniad mae'r gwaith wedi cael ei oedi ar y safle er mwyn i'r timau rannu unrhyw wersi i'w dysgu

Nifer y diwrnodau ers damweiniau colli amser ar hyn o bryd yw 2400 diwrnod.

Mae 323 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers digwyddiad halogi, ac 64 diwrnod ers digwyddiad amgylcheddol arwyddocaol.

Cynaliadwyedd

Mae Grŵp Cynaliadwyedd y safle yn dal yn weithredol iawn ac mae'r canlynol wedi digwydd ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle:-

- Cynhaliwyd diwrnod glanhau safle yn yr haf gyda chyfle i'r gweithlu gael gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn Magnox.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda Swyddog Awyr Dywyll Eryri sydd wedi gwneud rhai argymhellion a fydd yn cael eu datblygu.
- Gwelliannau i'n hailgylchu gwastraff cyffredinol ar y safle
- Mae bylbiau'r Cennin Pedr wedi cael eu plannu o amgylch y safle

Grŵp Iechyd a Lles

Trefnodd y grŵp Iechyd a Lles brofiad Adar Ysglyfaethus yn ddiweddar. Daeth Airborne Warriors â'u hadar gwyh i'r ganolfan ymwelwyr ac roedd aelodau o'r staff yn gallu dod â'u plant i weld yr arddangosfa. Mae hefyd wedi cynnal:

- Gweithdai ymwybyddiaeth ofalgar
- Clwb llyfrau a sesiynau cyfnewid llyfrau
- Gweithgareddau awyr agored amrywiol
- Cyhoeddi ein cylchgrawn iechyd a lles chwarterol.

Proffil y gweithlu

Disgrifiodd AR broffil presennol y Gweithlu fel a ganlyn:

Gweithwyr Magnox	232
Staff asiantaeth	28
Contractwyr	40

Dadansoddiad o ganran y gweithwyr yn ôl demograffeg

Gwynedd	60 %
Ynys Môn	23%
Conwy	10%
Dinbych	4%
Fflint Wrecsam a'r DU	3%

Cyfeiriodd AR hefyd at

- Mae 5 prentis Ffiseg Iechyd, a ddechreuodd yn Nhrawsfynydd yn ystod y pandemig, i gyd wedi cwblhau eu Diploma Lefel 2 mewn Diogelu rhag Ymbelydredd yn llwyddiannus.

- Ym mis Medi 2022, dechreuodd dau brentis mewn Diogelwch Radiolegol ac ymunodd dau brentis Crefft – 1 x Trydanol, 1 x mecanyddol â'r Adran Cynnal a Chadw
- Gwesteiodd y safle nifer o fyfyrwyr profiad gwaith Blwyddyn 10 o Ysgol Brynrefail, Llanrug, Ysgol David Hughes, Porthaethwy ac Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog, yn ogystal â myfyrwyr Peirianeg BTEC lefel 3 o Grŵp Llandrillo Menai, campws Dolgellau.

STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg)

Mae Magnox yn parhau i gefnogi ysgolion a cholegau lleol gyda gweithgareddau STEM ar y safle ac oddi arno. Yn ddiweddar, cafodd myfyrwyr o Ysgol David Hughes ac Ysgol Bro Idris daith o amgylch y safle ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda STEM Gogledd i gydlyn ymweliadau pellach.

Cyflawniadau Diweddar

Nodwyd y canlynol

- Mae'r gwaith o wagio system elifiant olaf y safle wedi'i gwblhau
- Mae dros 40 o focsys Gwastraff Lefel Ganolraddol wedi cael eu growtio
- Mae dros 13 llwyth o Wastraff Lefel Isel wedi cael eu hanfon
- Mae gwaith glanhau asbestos codwyr ceblau wedi cael ei gwblhau yn yr adweithyddion yn barod ar gyfer gostwng uchder
- Mae 4.75 tonnall o Wastraff Lefel Ganolraddol wedi cael ei brosesu yn y Storfa Gwastraff Gweithredol
- Prif archwiliadau ar y Gwaith Carthion wedi'i gwblhau
- Rhyddhau dros 30 o eitemau gwaddol fel cerbydau a pheiriannau
- Mae'r NDA wedi cymeradwyo'r achos busnes Lleihau Uchder
- Cyn bo hir, bydd y safle'n ymgysylltu â'r Gymuned leol i siarad am ddyfodol safle Trawsfynydd a sefydlu Neuadd y Dref Rithiol. Gwahoddir grwpiau cymunedol lleol i fod yn bresennol.

Gwaith safle ar gyfer y 6 mis nesaf –

Disgrifiodd AR y canlynol fel gwaith ar gyfer y 6 mis nesaf

- Growtio 50 blwch ILW
- Dosbarthu 14 o lwythi Gwastraff Lefel Isel
- Prosesu 12.5Te o Wastraff Lefel Ganolraddol yn y Storfa Gwastraff Gweithredol
- Gwagio TILWSP, Gwaith Cyfnerthu Resin, Adeilad Allforio
- Gorffen capio'r to mewn 4 cornel o'r storfa ddiogel
- Trosglwyddo larymau safle i system fonitro newydd
- Paratoadau ar gyfer glanhau a thynnu gwastraff o lonydd y pyllau
- Cwblhau adolygiadau dylunio o Weithfeydd Trin Carthion a gwelliannau diogelwch
- Gwella'r adeiladau safle
- Gosod systemau annerch cyhoeddus a systemau radio llaw newydd

- Sefydlu prosiect pecyn gwastraff gweithredol uwch annibynnol ar gyfer Trawsfynydd.

Ymweliadau â'r Safle

- Ymwelodd dirprwyaeth o'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol (IAEA) a'r Prosiect Rhyngwladol ar Gwblhau Datgomisiynu (COMDEC) â'r safle i weld sut mae Magnox yn datgomisiynu gwaddol niwclear y DU yn ddiogel ac yn gynaliadwy.
- Ymwelodd dirprwyaeth o UNIPER yn Sweden â safleoedd Cymru i rannu'r hyn a ddysgwyd
- Croesawyd 22 o gyn-weithwyr yn ôl i'r safle i weld y cynnydd o ran datgomisiynu yn storfa ddiogel yr adweithydd a'r cyfleusterau prosesu gwastraff. Nid oedd rhai o'r grŵp wedi ailymweld â'r safle ers gadael ar ddiwedd y cyfnod cynhyrchu, dros 30 mlynedd yn ôl.
- Aeth nifer o aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle ar daith o amgylch y safle ym mis Tachwedd 2022.

Grantiau Economaidd-Gymdeithasol Magnox – cafodd y wybodaeth ddiweddaraf am wariant ei chrynhai fel a ganlyn:-

Mae 10 mlynedd o gymorth ariannol economaidd-gymdeithasol Magnox wedi bod rhwng 2012 a 2022, gyda chyfanswm o £9,165,583 ar draws 12 safle Magnox.

Cyllid a ddyfarnwyd i Drawsfynydd - £1,706,429 gyda 169 o geisiadau wedi'u cefnogi

Dyma'r grantiau llai diweddar ar gyfer ardal Trawsfynydd:

Pwyllgor Gŵyl Llanbedr - £1,000 tuag at brynu ac adeiladu sied storio newydd ar dir yr ysgol gynradd leol i ddal yr holl offer a ddefnyddir mewn un lle hawdd ei gyrraedd.

Yn ddiweddar, cafodd **Cyngor Gwynedd** gymeradwyaeth gan yr NDA i gefnogi '**Rhaglen Ymateb Economaidd Covid**' gwerth £1.1m, am dair blynedd, gyda chyfraniad o £464,277. Mae'r gwaith dros y tair blynedd nesaf yn perthyn i dri chategori:

- Adfer y gweithlu
- Adfer Busnesau Bach a Chanolig a Microfusnesau
- Prosiectau Adfer Mawr

Dewiswyd **Seren Ffestiniog Cyf.** i gymryd rhan yn rhaglen S4C Prosiect Pum Mil. Y nod oedd adfywio'r gerddi yn Gerddi Stiniog. Cefnogodd Magnox gyda gwerth £1,000 o flodau ar gyfer yr ardd synhwyraidd, a gyflenwyd gan y ganolfan arddio leol, Fron Goch.

Clwb Rygbi Bro Ffestiniog - derbyniodd y tîm o dan 10 oed £800 ar gyfer eu cit newydd â brand Magnox arno.

Daeth cynrychiolwyr Magnox i agoriad swyddogol y tri labordy modern newydd ar gampws Coleg Menai yn Llangefni yn gynharach y mis hwn. Cafodd Grŵp Llandrillo Menai £386,034 drwy gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox fel rhan o brosiect gwerth £2.2m i uwchraddio'r labordai ar draws campysau Dolgellau, Pwllheli a Llangefni.

Yn olaf, cyhoeddodd AR fod gwefan newydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ar fin cael ei lansio a dymunai ddiolch i Keith O'Brien a John Richards am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth i ardal Trawsfynydd.

Diolchodd y Cadeirydd i AR am ei ddiweddariad cynhwysfawr a gwahoddodd yr aelodau i gyflwyno unrhyw gwestiynau.

Diolchodd y Cyng. Gwynfor Owen i AR am ei chyflwyniad ac am hwyluso'r ymweliad diweddar â'r safle ar gyfer aelodau'r SSG a oedd, yn ei farn ef, yn llawn gwybodaeth. Cadarnhaodd AR fod y tabl canrannau staff yn y cyflwyniad yn cyfeirio at staff Magnox yn unig. Cytunwyd hefyd i drefnu ymweliad safle arall cyn cyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Safle ym mis Mehefin 2023.

Cam gweithredu: AR

Cytunwyd i symud ymlaen i Eitem 6 ar yr Agenda a derbyn unrhyw gwestiynau yn ymwneud â Phont Droed Llyn Trawsfynydd wedi hynny.

6. Pont Droed Llyn Trawsfynydd

Croesawodd y Cadeirydd Tom Williams, Rheolwr Gwastraff Trawsfynydd, i'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gau'r bont droed ar draws llyn Trawsfynydd.

Nododd fod y bont droed wedi agor yn 1928 er mwyn sicrhau mynediad i'r gymuned leol ar ôl creu'r llyn. Mae Magnox wedi bod yn gyfrifol am gynnal a chadw'r bont droed am yr 20 mlynedd diwethaf, gydag arolygiadau statudol rheolaidd yn cael eu cynnal bob 6 mlynedd. Mae staff Maentwrog hefyd wedi cynnal adolygiadau wythnosol o ran strwythur pren y bont dros y cyfnod hwnnw. Penderfynwyd cau'r bont droed ganol haf 2022 am resymau diogelwch.

Ers hynny, mae trafodaethau wedi digwydd gyda Chyngor Cymuned Trawsfynydd er mwyn sicrhau ymgysylltiad llawn ar y ffordd ymlaen. Nododd mai barn ddiwrthdro trigolion lleol oedd cadw'r bont. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp gwaith ar y cam 'proses meddylfryd dylunio' ac ar hyn o bryd mae'n casglu'r costau perthnasol. Cadarnhaodd TW ymrwymiad Magnox i ymgysylltu â'r gymuned. Bydd rhagor o ddiweddariadau'n cael eu darparu yn unol â hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i TW am ei ddiweddariad.

Sesiwn Holi ac Ateb

Croesawodd Gerallt Rhun yr ymgynghoriad ar y Bont Droed. Holodd a oedd y bwriad i adnewyddu'r bont bresennol neu ei hamnewid yn llwyr. Dywedodd AR fod rhywfaint o gostau lefel uchel ar gael. Roedd yn cydnabod y gallai

amnewid y bont fod yn fwy costus ond y byddai'n sicrhau datrysiad tymor hwy o'i gymharu â dim ond adnewyddu.

7. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear - Ian Dallas

Croesawyd Mr Ian Dallas i'r cyfarfod. Cyflwynodd ei adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Medi 2022 fel a ganlyn:

Archwiliadau'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

- 4 - 5 Mai 2022
- 19 Mai 2022
- 13-15 Mehefin 2022
- 13 Gorffennaf 2022
- 8 Medi 2022

Ni thynnwyd sylw'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear at unrhyw faterion o bwys. Cyfeiriodd hefyd at y Parodrwydd am Argyfwng ar y safle a sicrhodd yr aelodau fod trefniadau prydlon ac effeithiol ar waith.

Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored – ni chodwyd unrhyw fater

8. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Iwan Williams/Mike Baggs

Nododd Iwan Williams nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol i adrodd arnynt a bod cydweithio rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Magnox a Pharc Eryri yn parhau o ran datgomisiynu.

Dywedodd Mike Baggs ei fod wedi bod ar y safle am y dyddiau diwethaf yn dilyn digwyddiad a ddigwyddodd 2 flynedd yn ôl ynghylch problem clirio ar y safle. Ni nodwyd unrhyw bryderon.

Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored – ni chodwyd unrhyw fater

9. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Simon Napper

Rhoddodd SN grynodedb o adroddiad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), gan dynnu sylw at y canlynol yn arbennig:

Cynllun Busnes yr NDA

Lansiwyd y Cynllun ar 12 Rhagfyr 2022 ac mae ar gael ar wefan yr NDA. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 6 Chwefror 2023

Strategaeth Rhanddeiliaid

Mae'r NDA yn comisiynu sefydliad annibynnol i gynnal arolwg rhanddeiliaid bob dwy flynedd. Eleni, cymerodd 800 o bobl ran, 200 yn fwy na'r arolwg diwethaf. Y dangosyddion allweddol a nodwyd ers yr arolwg diwethaf oedd – ymddiriedaeth, tryloywder a bod yn agored. Un o'r prif ganfyddiadau ar gyfer gwella oedd bod rhanddeiliaid eisiau gwybod mwy am gyflawni cenhadaeth a sut mae heriau technegol yn cael eu datrys – bydd yr NDA yn mynd i'r afael â hyn.

Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid

Yn dilyn y digwyddiad yng Nghaeredin fis Medi diwethaf, mae'r NDA wedi penderfynu y bydd yr Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid wyneb yn wyneb nesaf yn cael ei chynnal yn Cumbria yn 2024. Fodd bynnag, bydd Uwchgynhadledd ar-lein eleni, gobeithio ym mis Hydref. Bydd yr NDA hefyd yn cynnal cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol wyneb yn wyneb ar gyfer rhanddeiliaid yn ystod y 12 mis nesaf. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y byddant ar gael.

NDA a niwclear newydd

Mae'r NDA yn dal i aros am newyddion gan y Llywodraeth ynghylch pryd y bydd Great British Nuclear yn cael ei sefydlu a beth fydd ei gylch gwaith. Yn y cyfamser, mae nifer o ddatblygwyr a darparwyr technoleg yn cysylltu â'r NDA ynghylch argaeledd tir ar ei safleoedd.

Darperir gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn agored a thryloyw i ymholwyr.

Mae cydweithio'n parhau i gefnogi Cwmni Egino, yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng BEIS, NDA a Chwmni Egino.

Ymgynghoriad ar Ddatgomisiynu a Rheoli Gwastraff

Bydd ymgynghoriad newydd gan y Llywodraeth ar ddatgomisiynu a rheoli gwastraff yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Cytunwyd ar hynny rhwng BEIS a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban gan fod rheoli gwastraff yn bŵer datganoledig. Bydd rhagor o fanylion am weithgareddau ymgysylltu yn cael eu rhyddhau pan fydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf.

Cynllun i Raddedigion yr NDA

Ym mis Ionawr 2023, lansiodd yr NDA raglen newydd ar gyfer graddedigion ar draws y grŵp i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i lifo i'r busnes.

Mae'r cyfnod ymgeisio ar agor nawr, ac mae Enerqus, is-gwmni'r NDA, yn cefnogi'r rhaglen.

Bocs Concrid

Mae'r bocs concrid cyntaf o wastraff ymbelydrol wedi cael ei lenwi a'i drosglwyddo i'r storfa wastraff bwrpasol yn safle Berkeley.

Robotiaid mewn Amgylchedd Ymbelydrol

Mae robot sydd wedi'i ddylunio gyda chymorth Dounreay i archwilio amgylcheddau peryglus yn ddiogel wedi ei restru yn y 200 o ddatblygiadau arloesol gorau gan Time Magazine yn 2022. Mae'r robot, a elwir yn Lyra, wedi cael ei ddefnyddio i archwilio pibellau awyru ac i roi adborth ar wybodaeth radiolegol. Mae mynediad pobl i'r ardal hon yn amhosibl ar hyn o bryd oherwydd maint y bibell a'r risgiau radiolegol.

Diolchwyd i SN am ei gyflwyniad.

Sesiwn Holi ac Ateb

Gofynnodd Paul Richardson a ddylid ymgynghori ar y Strategaeth Rheoli Gwastraff? Cadarnhaodd SN y bydd BEIS yn cynnal yr ymgynghoriad.

Gofynnodd PR hefyd i'r NDA a BEIS roi ystyriaeth briodol i'r strategaeth y tu ôl i gyllid gan ei fod yn bersonol yn teimlo bod Sellafield yn cael gormod o gyllid ac y byddai'r safleoedd eraill yn elwa o gynnydd.

Dywedodd Rory Trappe fod Trawsfynydd yn cael ei adnabod fel y safle Arwain a Dysgu tua 3 blynedd yn ôl, fodd bynnag, mae teimlad cyffredinol bod y rhaglen yn ymddangos fel petai'n arafu. Cadarnhaodd SN fod y rhaglen ddatgomiynu'n cael ei chynnal fesul safle a chadarnhaodd mai Trawsfynydd yw'r safle Arwain a Dysgu o hyd.

Gofynnodd Beryl Williams beth oedd y ffactor pacio a'r trefniadau storio ar gyfer gwaredu gwastraff?

Nododd AR ddau bwynt – gostwng uchder a gwastraff. O ran gostwng uchder, fel paneli concrid a chladin (a elwir yn wastraff glân) mae'r safle bellach allan i dendr gyda chwmnïau dymchwel. O ran gwastraff arall, bydd newidiadau datblygiadol yn y ddeddfwriaeth a'r dechnoleg ddatgymalu (e.e. defnyddio robotiaid) yn effeithio ar brosesau gwaredu gwastraff eraill yn y dyfodol.

Cadarnhaodd AR hefyd fod Pwyllgor Diogelwch y safle yn dal ar waith.

10. Diweddariad Magnox – Bill Hamilton

Croesawyd Bill Hamilton i'r cyfarfod a briffiodd yr aelodau fel a ganlyn:-

- Cynnydd mewn safleoedd o 12 i 20
- Cynnydd mewn staffio o 3k i 6k dros y degawd nesaf
- Cynnydd mewn cyllid gan y Trysorlys o £500 miliwn i £1 biliwn
- Staff Dounray yn ymuno â Magnox ar 1.4.23 ond yn adrodd i'r un Bwrdd.
- Bydd fflyd Adweithyddion Nwy Uwch o 7 sy'n cael ei rheoli gan EDF ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Magnox un ar y tro wrth iddynt gael eu gwagio.
- Cynllun Busnes yr NDA – nid yw'r dyddiadau cau terfynol ar gyfer safleoedd Magnox wedi cael eu cyhoeddi dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae rhai wedi cael eu cyhoeddi yn y Cynllun Busnes presennol.
- Mae Magnox wedi cynnal trafodaethau gyda'r NDA a phartneriaid ynghylch y cyllid economaidd-gymdeithasol. Nododd BH bod Gogledd Cymru wedi gwneud yn dda iawn dros y blynyddoedd diwethaf.
- Yn yr argyfwng costau byw presennol, cytunwyd i sefydlu Cronfa Gymdeithasol Argyfwng o £600K gyda Magnox yn darparu £200K yn gyffredinol. Mae BH wedi ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol yn y dalgylch i edrych ar ddarparu banciau bwyd, hybiau cynnes a chymorth priodol arall.

Diolchwyd i BH am ei gyflwyniad.

Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored – ni chodwyd unrhyw fater

11. Y diweddaraaf am brosiect dymchwel cyfadeilad y pyllau – Ian Warner

12. Diweddariad Cyfyngiadau Uchder

Cyflwynodd Ian Warner Eitem 11 ac Eitem 12 yn absenoldeb Nigel Wrights.

Rhoddodd grynodeb o'r wybodaeth ddiweddaraf fel a ganlyn:-

Dymchwel y Cyfadeilad Pyllau:

- Peirianneg Gyfredol:
 - ❖ Draenio ar ôl Dymchwel – Derbyniwyd cymeradwyaeth SAB ar gyfer y cynnig. Dyluniad rhagarweiniol ar waith. Wrthi'n cael ei fireinio yn unol â dyluniad Haen Capio.
 - ❖ Haen Capio – Dyluniad manwl yn mynd rhagddo
- Asesiad Strwythurol – Adolygiad wedi'i gwblhau ac yn cael ei wirio.
 - ❖ Lonydd Pyllau'r De
 - ❖ Slab llawr gwaelod AETP
- Dull dymchwel:
 - ❖ Amlinelliad o'r cynllun dymchwel – Asesiad cyfyngiadau radiolegol
 - ❖ Adolygu'r amgaeadau posibl yn ystod y gwaith
 - ❖ Gwaith nodweddu'n mynd rhagddo

Amlinelliad o'r cynllun dymchwel:

- Y dilyniant dymchwel cychwynnol yn cael ei ddatblygu gan grwpiau arbenigol
- Cyfyngiadau radiolegol
- Gosod sgil-gynhyrchion dymchwel mewn gwagleoedd priodol

Cynnydd o ran caniatáu

- Trwydded Amgylcheddol y Safle
 - ❖ Amrywio trwydded bresennol
 - ❖ Caniatáu gwaredu ar y safle
 - ❖ Ymgysylltu parhaus â Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd
 - ❖ Dim byd annisgwyl
- Caniatâd cynllunio
 - ❖ Asesiad o'r effaith amgylcheddol wedi ei gyflawni
 - » Barn gwmpasu wedi'i chyflwyno (Medi 22)
 - » Penodau'r datganiad amgylcheddol drafft cyntaf yn cael eu datblygu
- Adolygu'r llinell amser – symud i fis Medi 2023

Ymgysylltu â'r gymuned

- Llythyr rhanddeiliaid – Rhagfyr 22
 - ❖ Croesawyd adborth
- Erthygl y BBC – Rhagfyr 22
 - ❖ Darparwyd taith ar y safle /esboniad
- Cynllun ymgysylltu
 - ❖ Anelu at ddechrau ymgysylltu'n rhagweithiol yng ngwanwyn 2023
 - ❖ Mae nifer o ofynion statudol i'w cyflawni
 - ❖ Defnyddio dull cymysg (cyfryngau/ar y we/wyneb yn wyneb)

Llinell amser ar gyfer Dymchwel Pyllau

Cais i Amrywio Trwydded – Medi 2023 gyda Cheisiadau Cynllunio ychydig fisoedd yn ddiweddarach

Cyfnod penderfynu 2 flynedd ond yn bwriadu dechrau'r broses ddymchwel yn 2027 – Ni fydd unrhyw waith ffisegol yn dechrau yn y dyfodol agos.

Prosiect Gostwng Uchder Adeilad yr Adweithydd – llinell amser (cyflwynwyd gan John Turp)

- ❖ Gweminar Cadwyn Gyflenwi - Hysbyswyd y Gadwyn Gyflenwi am amserlenni'r cynllun a'r broses gaffael – **Rhag '22**
- ❖ Holiadur Dethol (Cam Cyn-gymhwyso) – **Maw '23**
- ❖ Cam Gwahoddiad i Dendro – **Meh '23**
- ❖ Cam Adolygu a Negodi – **Hyd '23**
- ❖ Dderbyn Bidiau Terfynol – **Rhag '23**
- ❖ Proses Sanctsiynau a Sicrwydd yn dechrau – **Maw '24**
- ❖ Dyfarnu'r Contract – **Tach '24**

Sesiwn Holi ac Ateb -

Holodd y Cyng. Meredydd Williams a fyddai'r holl ddeunydd o'r pyllau yn aros ar y safle? Nododd IW mai'r bwriad yw i'r holl strwythurau o dan y ddaear aros ar y safle. O ran y deunyddiau uwch ben lefel y ddaear, bydd y rhain yn cael eu hail-bwrpasu ar y safle.

Gofynnodd Rory Trappe a fyddai contractwyr yn defnyddio'r rheilffordd? Nododd JT nad oes manylion ar gael hyd nes y bydd pob tendr wedi dod i law.

Gofynnodd Paul Richardson am nodyn atgoffa o'r dyddiad cwblhau ar gyfer Gostwng Uchder a Dymchwel Pyllau? Dywedodd JT mai'r amserlen ar gyfer Gostwng Uchder yw diwedd 2027. Cadarnhaodd IW linell amser o 2029/30 ar gyfer Dymchwel Pyllau, fodd bynnag, ailadroddodd bwysigrwydd cynnal ymgysylltiad cymunedol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon.

Cyfeiriodd Beryl Williams at gau'r Caffi, gan gydnabod y gallai hyn fod oherwydd costau rhedeg uchel. Awgrymodd y byddai hwn yn lleoliad addas ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a thrwy hynny gyfrannu at hyfywedd y lleoliad. Cyfeiriodd hefyd at yr Eisteddfod Genedlaethol sydd ar y gweill yn Llŷn yr haf hwn a byddai hynny hefyd yn ffordd effeithiol o hyrwyddo datblygiadau, yn enwedig y gwaith da a wneir gyda STEM. Roedd AR yn cydnabod sylwadau BW ac yn cytuno y byddent yn cael eu hystyried ymhellach.

Diolchwyd i Ian W a JT am eu cyflwyniadau.

13. Rhaglen Dreigl o Ddatgomisiynu – John Turp

Rhoddodd JT ddiweddariad ar Datgomisiynu'r Rhaglen Dreigl (RPD)a grynhoir fel a ganlyn:

Y 3 blynedd nesaf:

Dylunio'r Cynllun Adfer Adweithyddion

- Cafodd dyluniadau cysyniad ac opsiynau cysylltiedig eu cwblhau yn ystod haf 2022.
- Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gynllunio ar gyfer cam nesaf y broses ddylunio – dylunio'r cynllun.
- Mae gwaith dylunio'r cynllun wedi cael blaenoriaeth ar gyfer y rhannau hynny o'r rhaglen sydd â'r ansicrwydd technegol mwyaf, sef datgymalu adweithyddion yn bennaf.
- Mae cyfnod dylunio'r cynllun yn debygol o bara tua 2.5 mlynedd, ac ar yr adeg honno bydd gennym ddealltwriaeth well o lawer o sut bydd adeiladau'r adweithyddion yn edrych a beth fydd yn digwydd ynddynt.

Gweddill y 3 blynedd nesaf

Galluogwyr Rhaglenni

- Mae llawer iawn o waith ategol ar y gweill i ategu dyluniadau'r cynllun. Rydym wedi galw hyn yn Galluogwyr Rhaglenni:
 - Nodweddu – erbyn haf 2023 rydyn ni'n bwriadu rhoi cynlluniau nodweddu manwl ar waith ar gyfer y ddau adweithydd. Byddwn wedyn yn cyflawni'r cynlluniau hyn dros y 2 flynedd nesaf i leihau ansicrwydd.
 - Strategaeth wastraff – byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer rheoli pob math o wastraff, ymbelydrol a heb fod yn ymbelydrol, gan ymgysylltu â'r holl randdeiliaid priodol yn ôl yr angen.
 - Caniatâd – byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a chyrff rheoleiddio i sicrhau'r caniatâd cyffredinol angenrheidiol i gael cymeradwyaeth ar gyfer y cynllun gwaith cyffredinol er mwyn mynd â'r safle i'w gyflwr terfynol.

Canlyniad gwaith 3 blynedd

- Penllanw gwaith galluogwyr rhaglenni a dylunio'r cynllun fydd cynhyrchu achos busnes manwl yn amlinellu ac yn cyfiawnhau datgymalu'r adweithyddion a chlirio'r safle.
- Bydd yr achos busnes hwn yn ceisio cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â gweddill y rhaglen e.e. symud i'r cam dylunio ac adeiladu manwl ar gyfer cyfleusterau datgymalu adweithyddion ac ati.

Dywedodd JT y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith hwn mewn swyddfa ac na fydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r safle yn y dyfodol agos.

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd y Cyng. Elfed Roberts ynghylch gwaredu graffit a'r amserlen?

Dywedodd JT mai'r dybiaeth ar gyfer y graffit yw y bydd yn becyn o fath ILW, sy'n wahanol mae'n debyg i'r math a ddefnyddir ar hyn o bryd, a fydd yn cael ei roi mewn storfa interim, tebyg i'r Storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol sydd eisoes ar y safle

Croesawodd y Cyng. Gwynfor Owen yr adroddiad gan nodi, ar un adeg, y dywedwyd y byddai toriad o 15 mlynedd cyn gostwng uchder. Dywedodd ei bod yn hanfodol i'r gwaith datgomisiynu fod yn barhaus er mwyn cadw staff a sicrhau dyfodol cadarnhaol cadarn i'r gymuned leol. Anogodd bob sefydliad i bwysleisio gyda Llywodraeth Cymru bwysigrwydd datblygu a chefnogi Trawsfynydd fel safle arwain a dysgu.

Gofynnodd Paul Richardson a oedd unrhyw arwydd ynghylch pryd y byddai gwaith ffisegol yn dechrau? Dywedodd JT mai'r gofyniad cyntaf ar ôl 2027 fyddai cael gwared â'r cydrannau craidd, yna cam llai arall o waith dymchwel, ond nad yw'r manylion yn glir ar hyn o bryd. Yna, byddem yn adeiladu'r cyfleusterau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith adfer a fydd yn cael ei wneud yn yr 2030au. Gofynnwyd i'r aelodau gofio bod y cynllun cyfredol uchod ar gam cysyniad a'i fod yn agored i'w addasu.

14. Diweddaraf Cwmni Eginio – Laurence Smith

Croesawyd Laurence Smith, Rheolwr Gweithrediadau Cwmni Eginio, i'w gyfarfod cyntaf o'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle. Esboniodd LS ei fod wedi bod gyda Cwmni Eginio ers ei sefydlu, a'i fod ar secondiad o Lywodraeth Cymru. Prif ffocws y cwmni yw budd economaidd, sy'n bwysig iawn yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae gan Cwmni Eginio dri phrif nod

- ❖ Braenaru ar gyfer rhaglen SMR ledled y DU
- ❖ Datblygu Canolfan Ragoriaeth Gogledd Cymru ar gyfer ynni carbon isel
- ❖ Gwneud gwahaniaeth i fywydau'r boblogaeth leol

Dywedodd y bydd gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â'r NDA a Magnox i gyflawni'r nodau hyn. O ran datblygu Adweithydd Isotop Meddygol, mae'r gwaith hwn yn cael ei ohirio oherwydd diffyg Fframwaith Polisi gan Lywodraeth Cymru. Esboniodd LS y tri cham wrth ddatblygu Cynllun Strategol Cwmni Eginio.

- ❖ Cam 1 – datblygu cynnig busnes – gyda'r nod o'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2023;
- ❖ Cam 2 – datblygu trwyddedau a chaniatadau statudol;
- ❖ Cam 3 – cyflwyno cais am drwydded.

Bydd y cam nesaf yn cynnwys datblygu Achos Busnes; nodi partneriaid sydd â diddordeb i ddatblygu ar y safle; parhau i ddatblygu ymgysylltiad cymunedol cadarn ac, yn olaf, sicrhau bod Trawsfynydd yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Niwclear y DU.

Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd y Cyng. Meredydd Williams a yw Cwmni Eginio yn bwriadu datblygu y tu allan i ffiniau tir yr NDA? Dywedodd LS fod Cwmni Eginio yn ystyried datblygu pob maes ond mai ar dir yr NDA y mae'r prif ffocws ar hyn o bryd.

Holodd y Cyng. Gwynfor Owen a oedd pleidiau gwleidyddol eraill yn y Llywodraeth ganolog o blaid sefydlu Great British Energy? Nododd ei bryder y bydd y gwaith a wnaed hyd yma yn cael ei ddiystyru os cawn newid yn y

Llywodraeth yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf. Ymddiheurodd LS nad oedd yn gallu ateb cwestiwn gwleidyddol fel hyn a'i fod ond gobeithio y byddai'r gwaith a wnaed hyd yma yn cael ei gefnogi gan bleidiau gwleidyddol eraill.

Dywedodd Rory Trappe y cyfeiriwyd yn ystod darllediad diweddar gan y Pwyllgor Materion Cymreig at Rolls Royce a oedd yn dangos diddordeb yn Nhrawsfynydd ac y byddent yn symud ymlaen pe na bai penderfyniad yn cael ei wneud ar eu cynnig o fewn y 2 flynedd nesaf. Mynegodd bryder y gallai Trawsfynydd fod ar ei cholled os oes unrhyw oedi yn y rhaglen SMR. Roedd yn falch o nodi, fodd bynnag, fod cyfeiriad wedi bod at Drawsfynydd a Chwmni Eginio yn ystod y trafodaethau.

Holodd Robin Williams a fyddai cydweithio rhwng partïon â diddordeb ar gyfer datblygu ar y safle? Nododd LS fod cysoni'r rhaglen yn allweddol yn y broses.

Roedd y Cyng. Elfed Roberts yn dymuno diolch i Gwmni Eginio am weithio fel 'brocer' ar ran Trawsfynydd a gofynnodd a oedd partïon eraill ar wahân i Rolls Royce wedi dangos diddordeb? Dywedodd LS fod nifer o gwmnïau eraill wedi dangos diddordeb yn dilyn y marchnata a wnaed hyd yma.

Diolchwyd i LS am ei gyflwyniad.

15. Unrhyw fater arall – dim wedi'i godi

16. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dyddiad:	8 Mehefin 2023
Amser:	1pm – cyn Ymweliad Safle ar gyfer aelodau'r SSG.
Lleoliad:	Canolfan Gynadledda a Sefydlu Trawsfynydd

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chaeodd y cyfarfod am 3:30pm



Summary of the key points from the Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting held on the 31 January 2023

1. The Chair welcomed all to the meeting
2. Angharad Rayner presented the Magnox Site Director's Report
3. Thomas Williams gave a brief update on the Trawsfynydd Lake Footbridge.
4. Ian Dallas from the ONR provided a report
5. Iwan Williams gave a briefing on the NRW / EA joint report circulated previously.
6. Simon Napper gave a presentation on behalf of the NDA
7. Bill Hamilton provided an update on behalf of Magnox Ltd
8. Ian Warner gave an update on the Ponds Complex Demolition and Height Reduction projects at Trawsfynydd site
9. John Turp provided details of the Trawsfynydd Rolling Programme of Decommissioning
10. Laurence Smith was welcomed to his first meeting of the group and gave an update on Cwmni Egin



**Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting
Tuesday 31 January 2023 13.00 hrs
Conference Centre**

MINUTES

PRESENT

NAME

Keith O'Brien,
Angharad Rayner
Mair Jones
Bill Hamilton
Claire Wing
Cath Pritchard
Ian Warner
Rory Trappe
Beryl Williams
Gerallt Rhun
Stephen Wilmott
Chris Harvey
Ben Bridgewater
Matt Meldrum
Steve Thomason
Andy McAteer
Mike Merritt
Jane Taylor- Williams
Lucy Powell
Jon Holland
Thomas Purfer
John Turp
Gwen Pethfor
Paul Richardson
Sam Morgan
Simon Napper
Laurence Smith
Sioned Lewis
Cllr. Gwynfor Owen
Meryl Roberts
Cllr Elfed Roberts
Cllr. D.Meredydd Williams
Steve Harris
Sion Roberts
Iwan Williams
David Wilby
Mike Baggs
Robin Williams
Tom Williams

ORGANISATION

Chair
Site Director
Socio Economics Lead Magnox
Magnox Director of External Affairs
Magnox –Communications Lead, Welsh sites
Magnox – SSG Secretariat
End State Manager Manager, Magnox
Trawsfynydd Retirees Group
Trawsfynydd Retirees Group
Traws-newid
Magnox Principal Waste Consultant
Magnox Senior Engineering Consultant
Magnox Senior Waste Consultant
Magnox Senior Waste Consultant
Magnox Unite Shop Steward
Station Engineer (Maentwrog), Magnox
Magnox – Day Production Team Leader, Maentwrog
POBL
POBL
North Wales Emergency Planning Service
NWEF Service
Plant & Structures Programme Manager, Magnox
Meirionydd W.I.
Prospect Trade Union Rep, Magnox Trawsfynydd
Independent
Nuclear Decommissioning Authority (NDA)
Cwmni Eginio
Cwmni Seren Ffestiniog
Gwynedd Council
Gwynedd Council and Penrhyn T.C.
Gwynedd Council
Maentwrog Community Council
NW Fire Service
Snowdonia National Park
Natural Resources Wales
NRW
Environment Agency
NW Minerals and Waste Planning Services
Magnox - Waste Manager, Trawsfynydd

In Attendance

Aled Jones
Sydna Roberts

Cymen - Translator
Cymen – minute taker

1. Welcome and Apologies

The Chair welcomed everyone to the meeting at 1pm. The following apologies were noted: -

Cllr John Richards Talsarnau Community Council
Nigel Wright Magnox – Senior Project Manager

2. Approve the Minutes of the meeting held on 9 June 2022

Minutes of the meeting held on 9 June 2022 were presented and accepted as a correct record – (GO/ER)

3. Matters arising from the minutes of the meeting held on 9 June 2022

None raised

4. Chairman's Address

The Chair welcomed all new members and explained that the meeting scheduled for December 2022 had been postponed due to the number of apologies received resulting in the meeting not being quorate. He wished to remind members that, as noted in the previous meeting minutes, *'the role of the SSG is to perform as a critical friend to the decommissioning process acknowledging that future developments may well be undertaken collaboratively.'*

He again wished to thank John Richards for his support in attending various meetings as Vice Chair during his recent illness. He also thanked Rory Trappe for attending the NDA Summit in Edinburgh on 7-8 September 2022 as JR had also been unable to attend. The Chair invited Rory to say a few words about the event. RT thanked Simon Napper and his NDA colleagues for arranging an impeccably organised event at a good venue providing a great opportunity to network. During the event, discussions had been held around defuelling AGR's and presentations had been received from Sellafield and Dounray.

5. Trawsfynydd Site Director's Report – Angharad Rayner

Angharad Rayner, Trawsfynydd Site Director, was welcomed to the meeting and provided members with a presentation on site developments since the last meeting, summarised as follows:-

Safety

Safety remains the number one priority with mandatory Human Performance refresher training being carried out for all staff. There have been a spate of hand injuries seen as a trend across Magnox, as a result the site has stood down the teams to share any learning

Number of days since a lost time accidents currently stands at 2400 days. There has been 323 days since a contamination event and 64 days since a significant environmental event

Sustainability

The site's Sustainability Group remains very active and the following has taken place since the last SSG meeting:-

- A site clean-up day was held in the summer followed by an opportunity for the workforce to find out more about what's going on in Magnox.
- A meeting was held with the Snowdonia Dark Skies Officer who has made some recommendations which will be progressed.
- Improvements to our general waste recycling on site
- Daffodil bulbs have been planted around the site

Health and Well-being Group

The Health and Well-being group recently organised a Bird of Prey experience. Airborne Warriors brought their fabulous birds to the visitor centre and staff members were able to bring their children along to see the display. It has also held:

- Mindfulness workshops
- Book club and book swap sessions
- Various outdoor activities
- Issued our quarterly health & wellbeing magazine.

Workforce Profile

AR described the current Workforce profile as follows:

Magnox employees	232
Agency staff	28
Contractor	40

Percentage breakdown of employees by demographic

Gwynedd	60 %
Ynys Môn	23%
Conwy	10%
Denbigh	4%
Flint Wrexham and UK	3%

AR also referred to

- 5 Health Physics apprentices, who started at Trawsfynydd during the pandemic, have all successfully completed their National Vocational Qualification (NVQ) Diploma level 2 in Radiation Protection.
- In September 2022, two apprentices started in Radiological Protection and two Craft apprentices – 1 x Electrical, 1 x Mechanical joined the Maintenance Department
- The site hosted a number of work experience Year 10 students from Ysgol Bryn Efail, Llanrug, Ysgol David Hughes, Porthaethwy and Ysgol

Y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog, as well as BTEC level 3 Engineering students from Grwp Llandrillo Menai, Dolgellau campus.

STEM (Science Technology Engineering & Mathematics)

Magnox is continuing to support local schools and colleges with STEM activities both on and off site. Students from Ysgol David Hughes and Ysgol Bro Idris were recently given a site tour and work is ongoing with STEM Gogledd on co-ordinating further visits.

Recent Achievements

The following were noted

- Deplanting of site's last effluent system has been completed
- Over 40 Intermediate Level Waste boxes have been grouted
- More than 13 Low Level Waste consignments have been despatched
- Cable riser asbestos clean has been completed in the reactors in readiness for height reduction
- 4.75 tonnes of Intermediate Level Waste has been processed in the Active Waste Vault
- Sewage Plant rising main inspections have been completed
- Asset release of over 30 legacy items such as vehicles and plant
- Height Reduction business case has been approved by the NDA
- The site will soon be engaging with the local Community to talk about the future for Trawsfynydd site and establishing a Virtual Town Hall. local community groups will be invited to attend.

Site work for the next 6 months –

AR described the following as work for the next 6 months

- Grout 50 ILW boxes
- Despatch 14 Low Level Waste consignments
- Process 12.5Te of Intermediate Level Waste in the Active Waste Vaults
- Deplant TILWSP, Resin Solidification Plant, Export Building
- Complete capping roof in 4 corners of safestore
- Transfer site alarms onto new monitoring system
- Preparations for cleaning and waste remove from the ponds lanes
- Complete design reviews of Sewage Treatment Plant and security enhancements
- Make improvements to site accommodation
- Install new public address system and radio handsets
- Set up stand-alone high waste active waste package project for Trawsfynydd.

Visits to Site

- A delegation from the International Atomic Energy Agency (IAEA) and the International Project on Completion of Decommissioning (COMDEC) visited site to see how Magnox are safely and sustainably decommissioning the UK's nuclear legacy.
- A delegation from UNIPER in Sweden visited the Welsh sites to share learning
- 22 former employees were welcomed back to the site to see the decommissioning progress being made in the reactor safestore and waste processing facilities. Some of the group had not revisited the site since leaving at the end of generation, over 30 years ago,
- A number of SSG members took a site tour in November 2022.

Magnox Socio-Economic grants – update on expenditure was summarised as follows:-

There has been 10 years of Magnox socio-economic funding support 2012 – 2022 with a total of £9,165,583 across all 12 Magnox sites.

Funding awarded for Trawsfynydd - £1,706,429 with 169 applications supported

Recent smaller grants for Trawsfynydd locality are as follows:

Llanbedr Festival Committee - £1K towards the purchase and build of a new storage shed in the local primary school grounds to hold all the equipment used in one, easy accessible place

Gwynedd Council recently received approval from the NDA to support a £1.1m, three year '**Covid Economic Response Programme**' with a contribution of £464,277. The work over the next three years falls into three categories:

- Workforce recovery
- SME and Microbusiness Recovery
- Major Recovery Projects

Seren Ffestiniog Cyf. were chosen to take part in the S4C programme Prosiect Pum Mil. The aim was to rejuvenate the gardens at Gerddi Stiniog. Magnox supported with £1,000 worth of flowers for the sensory garden, supplied by local nursery Fron Goch.

Clwb Rygbi Bro Ffestiniog - under 10's team received £800 for their new Magnox branded kit.

Magnox representatives attended the official opening of the three new state of the art laboratories in Coleg Menai's Llangefni campus earlier this month. Grŵp Llandrillo Menai received £386,034 through the Magnox socio-economic scheme as part of the £2.2m project to upgrade the laboratories across the Dolgellau, Pwllheli and Llangefni campuses.

Finally, AR announced the imminent launch of the new Site Stakeholder Group website and wished to thank Keith O'Brien and John Richards for their contributions and support to the Trawsfynydd area.

The Chair thanked AR for her comprehensive update and invited members to present any questions.

Cllr Gwynfor Owen thanked AR for her presentation and for facilitating the recent site visit for SSG members which he found very informative. AR confirmed that the staff percentages table within the presentation referred to Magnox staff only. It was also agreed to arrange another site visit preceding the June 2023 SSG meeting.

ACTION: AR

It was agreed to proceed to Item 6 on the Agenda and to receive any questions relating to the Trawsfynydd Lake Footbridge thereafter.

6. Trawsfynydd Lake Footbridge

The Chair welcomed Trawsfynydd Waste Manager, Tom Williams, to the meeting to provide an update on the closure of the footbridge across Trawsfynydd lake.

He noted that the footbridge opened in 1928 in order to ensure access to the local community following creation of the lake. Magnox has been responsible for the maintenance and upkeep of the footbridge for the last 20 years with regular statutory inspections being held every 6 years. Maentwrog staff have also maintained weekly reviews as regards the wooden structure of the bridge over that period. It was decided to close the footbridge midsummer 2022 for safety reasons.

Since then, discussions have taken place with Trawsfynydd Community Council in order to ensure full engagement on the way forward. He noted that the overwhelming view of local residents was to keep the bridge. Currently the work group is at the 'design thinking process' stage and is currently collating relevant costings. TW confirmed Magnox's commitment to engaging with the community. Further updates will be provided accordingly.

The Chair thanked TW for his update.

Question and Answer Session

Gerallt Rhun welcomed the consultation on the Footbridge. He enquired as to whether the intention was to renovate the current bridge or replace completely. AR stated that there were some high level costs to hand. She acknowledged that replacing the bridge may be more costly but would ensure a longer term resolution in comparison to merely renovation.

7. Report by the Office for Nuclear Regulation – Ian Dallas

Mr Ian Dallas was welcomed to the meeting. He presented his report for the period 1 April 2022 to 30 September 2022 summarised as follows:

ONR Inspections made

- 4 - 5 May 2022
- 19 May 2022

- 13 - 15 June 2022
- 13 July 2022
- 8 September 2022

No significant issues were highlighted to ONR.

He also referred to Emergency Preparedness on site and assured members that prompt and effective arrangements were in place.

Question and Answer Session - none received

8. Report by Natural Resources Wales – Iwan Williams/Mike Baggs

Iwan Williams noted that there were no significant issues to report and that collaborative working between NRW, Magnox and Parc Eryri continues regarding de-commissioning..

Mike Baggs reported that he had been on site for the last few days following up on an event that happened 2 years ago regarding a clearance issue on site. No concerns were noted.

Question and Answer Session - none received

9. Report by the Nuclear Decommissioning Authority – Simon Napper

SN provided a summary of the NDA report drawing particular attention to the following:-

NDA Business Plan

The Plan was launched on 12 December 2022 and is available on the NDA website. The consultation will end on 6 February 2023

Stakeholder Strategy

